PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 158 | Rhif 31 | Gorffennaf 31, 2025 | 50c.

## CLYWED AM 'Y DA, Y DRWG A'R HYLL' YN Y SUL SBESIAL





Un o gyn-ohebwyr mwyaf profiadol BBC Cymru oedd y siaradwr gwadd yn Sul Sbesial Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin eleni. Ofnwyd y byddai'r tywydd llethol o boeth yn golygu y byddai nifer ddim yn mentro allan, ond eto roedd neuadd Bronwydd yn llawn i glywed Aled Huw, un o 'blant y Priordy,' yn siarad am rai o uchafbwyntiau ei yrfa eithriadol. Mae'n wyneb cyfarwydd i wylwyr newyddion S4C ac yn llais cyfarwydd i wrandawyr BBC Radio Cymru am bron i 35 mlynedd cyn gadael y BBC y llynedd.

### Gohebu o blith straeon mawr

Bu Aled yn llygad dyst i ddigwyddiadau 'da, drwg a hyll' yng Nghymru ac ar draws y byd yn ystod ei yrfa hir. Trwy gymorth fideos ar y sgrin fawr, fe welon ni Aled yn gohebu o blith y miliwn oedd yn dioddef newyn enbyd ar ôl ffoi o'r hil-laddiad yn Rwanda; o New Orleans ar ôl i'r ddinas honno gael ei chwalu gan gorwynt Katrina; o ganol y dorf afieithus yn angladd Nelson Mandela; ac yn nes adre yn siarad â theulu un o'r pedwar o lowyr a laddwyd yn nhrychineb pwll glo Gleision yng Nghwm Tawe yn 2011. Dim ond pedair stori allan o filoedd oedd hynny, meddai Aled, ac fe gawsom flas byr o amryw eraill ganddo yn ystod ei gyflwyniad gafaelgar. Bu cyfle hefyd i'w holi am ddylanwad bore oes mewn ysgol Sul ac yn ysgolion Caerfyrddin. Diolchwyd yn dwymgalon i Aled Huw gan Jean Lewis, cadeirydd y cyfundeb, oedd yn llywyddu'r Sul Sbesial.

### Cyfraniad y plant

Cyn cyflwyniad Aled, cafwyd hanes Iesu'n tawelu'r storm gan blant ysgol Sul Capel y Graig, Tre-lech. Hwy hefyd fu'n traddodi'r weddi ac yn cyhoeddi'r ail emyn. Ar ôl hynny, fe aeth y plant o Dre-lech ac ysgolion Sul eraill i 'stafell arall i fwynhau gweithgarwch o dan ofal athrawon ysgol Sul Hermon, gan ddod 'nôl cyn y diwedd i arddangos yr hyn roedden nhw wedi eu creu. Cyfeiliwyd yr emynau yn ystod yr achlysur yn fywiog a phwerus gan fand y Priordy. Diolch i bawb a wnaeth eu rhan mewn sawl ffordd i sicrhau llwyddiant Sul Sbesial arall (y 18fed yng ngorllewin Caerfyrddin!) a ddaeth i ben gyda chymdeithasu dros gwpaned o de a bisgedi a drefnwyd gan aelodau Peniel.













# Adroddiad Blynyddol yr Ysgrifennydd Cyffredinol

*Dyma ran olaf Adroddiad Blynyddol y Parchg Dyfrig Rees a draddodwyd yng Nghyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn Nant Gwrtheyrn.*



### Grantiau

Bydd cyfle, maes o law, i glywed a gweld rhywfaint o storïau dwy eglwys sydd wedi manteisio ar grantiau'r rhaglen Arloesi a Buddsoddi. Rhaglen sy'n esblygu a datblygu yw hon, gyda'r amcan o ddarparu rhaglen sy'n cyfarfod â gofynion yr eglwysi. Bydd y trysorydd yn siŵr o nodi hyn yn ei adroddiad yntau.

### Dysgu

Un o'r gwersi mwyaf gwerthfawr gafodd Meinir a minnau, eleni oedd dysgu am y broses archwilio elusennol blynyddol, gyda diolch i'r trysorydd a'r cyfrifydd am eu cymorth a'u cefnogaeth amhrisiadwy. Amcan y broses yw gwirio a dilysu'n gweithgaredd. Gwneir hynny gan mwyaf trwy gyfres o gwestiynau, nid annhebyg i'r gyfres honno sy'n seiliedig ar y llythyren W, yn Saesneg: who, what, when, why, where.

Nid ydym yn hoff o gael ein cwestiynu yn enwedig mewn modd *interrogative*, ond buan iawn y daw rhywun i sylweddoli fod y broses mewn lle er mwyn ein gwarchod a'n diogelu, a'n helpu yn y pendraw i wneud ein gwaith yn well.

### Archwiliad

Credaf y byddai'n llesol i ni yn y byd eglwysig gynnal archwiliad o bryd i'w gilydd. Seiliaf y dybiaeth ar yr hyn ddywedwyd gan arweinydd un o eglwysi Cytûn mewn encil diweddar. Ar hyd y blynyddoedd, meddai, bûm yn byw gyda sicrwydd ym materion ffydd a chred. Methais, a bellach rwy'n byw gyda dirgelwch.

Mae byw gyda dirgelwch yn golygu byw gydag anwybod a chywreinrwydd, cywreinrwydd y plentyn sy'n gosod rheidrwydd arno i holi cwestiynau, rhai tebyg i – pwy, beth, pryd, pam, ble?

Mae gan Luc rhywbeth diddorol iawn i'w ddweud am Iesu'r plentyn yn y deml, 'yn eistedd yng nghanol yr athrawon, yn gwrando arnynt ac *yn eu holi*.' Ac fe wnaeth Iesu ddefnydd helaeth o gwestiynau a chwestiynu gydol ei weinidogaeth. Yn wir, y mae Iesu'n holi mwy o gwestiynau, nag y mae'n eu hateb.

### Credo Nicaea

Ym mlwyddyn dathlu 1700 mlwyddiant Nicaea, fe gofiwn bo'r eglwys ar hyd yr oesoedd wedi llunio credoau a datganiadau ffydd, rhai y mae modd bod yn reit sicr a haearnaidd yn eu cylch. Cwestiwn Iesu i ni, dybia i, yw beth i ni'n wneud ohonynt? I ble, ac i ba fath o fywyd y mae ein credoau yn ein harwain?

Ymddengys bod Cristnogion yn rhanedig yn eu hymateb i'w galwad ac i natur yr iachawdwriaeth sydd yng Nghrist. Tra bod rhai ohonom wedi'n hysgwyd i'r byw gan y brwydro yn Gaza dros y misoedd diwethaf, ac yn gweld yr holl ladd a'r distryw yn sarhad ar Dduw, awdur bywyd, gwêl eraill y cyfan oll fel cam tuag at wireddu proffwydoliaethau'r Hen Destament, pryd y gwelir Israel ym meddiannu gwlad yr addewid yn gyfan, a hynny wedyn, yn arwydd bod diwedd y byd yn agosáu, ac yn gyfrwng i hebrwng Crist i'w ailddyfodiad, er galw'r gwaredigion i fywyd.

### Iesu Grist

Iesu yw Arglwydd yr Ysgrythurau, wrth gwrs, ac yng ngoleuni ei ddysgeidiaeth ef y dylid eu darllen a'u dehongli.

Yn ôl Iesu, y mae'r holl gyfraith a'r proffwydi yn dibynnu ar y ddau orchymyn, 'Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac a'th holl feddwl,' ac yna, 'Câr dy gymydog fel ti dy hun.'

Eto, meddai Iesu, 'Pa beth bynnag y dymunwch i eraill ei wneud i chwi, gwnewch chwithau felly iddynt hwy; hyn yw'r Gyfraith a'r proffwydi.'

Mewn dyddiau nid annhebyg i'n dyddiau ni fe atgoffodd y proffwyd Micha bobl Israel o'r un peth y gallen nhw fod yn siŵr ohono, sef bod natur galwad Duw i'w bobl yn ddigyfnewid. Mewn byd ansicr, anniogel, a bywyd y byd dan fygythiad bywyd, byddai'n werth i ni fel Cristnogion gofio ac ystyried mai'r hyn a gais yr Arglwydd gennym yw:

1. gwneud beth sy'n iawn, (yng ngoleuni'r cyfamod ag Abraham)
2. caru teyrngarwch, (chesed) trugaredd, i Isaac Thomas, 'ymlyniad diwyro wrth amcanion cariadlon (Duw)'
3. ac ymostwng i rodio'n ostyngedig gyda'th Dduw.

Bendith Duw fo arnoch a hir oes i'r Undeb.



Yr Adran Gydenwadol

GORFFENNAF 31 2025 RHIF 231

# Eglwysi a chapeli hanesyddol Wrecsam

Mae bro'r Eisteddfod yn llawn o eglwysi nodedig ac mae rhai ohonynt wedi eu cofrestru gan CADW. Dyma flas i chi o'r hyn sydd i'w weld yma, heb anghofio hefyd am gyfraniad nodedig Morgan Llwyd yn yr ardal hon.

**Eglwys San Silyn, Wrecsam**
Mae'r eglwys hon – eglwys plwyf yng nghanol Wrecsam – yn gofrestredig, Gradd 1. Mae addoldy wedi sefyll ar y safle ers y 13eg ganrif o leiaf, ond codwyd y rhan fwyaf o'r adeilad presennol yn y 15fed ganrif. Mae'n debyg mai'r Arglwyddes Margaret Beaufort, mam Harri Tudur a gwraig Thomas Stanley, iarll Derby, a noddodd yr adeilad newydd. Os felly, mae'r eglwys yn un o nifer yng ngogledd-ddwyrain Cymru a noddwyd gan y teulu Stanley, yn eu plith eglwysi plwyf Gresffordd a'r Wyddgrug, a Ffynnon Gwenffrewi yn Nhreffynnon.

Caiff Eglwys San Silyn ei hystyried yn un o gampweithiau pensaernïol Cymru, ac yn ôl rhigwm Saesneg o'r ddeunawfed ganrif, mae ei thŵr yn un o Saith Rhyfeddod Cymru. Mae'r eglwys yn enwog yn rhyngwladol am fod Elihu Yale, a roes ei enw i Brifysgol Yale yn yr Unol Daleithiau, wedi'i gladdu yn y fynwent.

Daw'r cyfeiriad cynharaf at eglwys yn Wrecsam o 1220, pan roddwyd haner incwm degymau'r eglwys honno i Abaty Glyn-y-groes gan Reyner, esgob Llanelwy. Ceir cyfeiriad arall ati ym 1247 pan roddwyd rhagor o ddegymau'r eglwys i'r abaty gan Madog ap Gruffydd, tywysog Powys. Ar 15 Tachwedd 1330 chwythwyd y clochdy i lawr ac ailadeiladwyd yr eglwys yn gyfan gwbl. Y gred boblogaidd oedd fod Duw wedi cosbi'r dref am gynnal marchnad ar y Sul, a symudwyd diwrnod marchnad Wrecsam i ddydd Iau o ganlyniad i hyn.



Llosgodd eglwys y 14eg ganrif gan mlynedd wedi iddi gael ei hadeiladu, ac fe'i hailgodwyd yn yr arddull Gothig hwyr a elwir yn 'berpendicwlar', efallai dan nawdd yr Arglwyddes Margaret Stanley. Dyma un o'r eglwysi mawr olaf a adeiladwyd yn y deyrnas cyn y Diwygiad Protestannaidd.

**Eglwys Sant Chad, Holt**
Eglwys ac adeilad rhestredig Gradd I ym mhentref Holt yw Eglwys Sant Chad, sy'n rhan o Esgobaeth Llanelwy. Mae'n debyg fod yr eglwys yn dyddio o'r 1280au pan ymsefydlodd y teulu Warren yno. Ceir y cyfeiriad cyntaf at yr eglwys mewn dogfen o 1379. Ailfodelwyd ac estynnwyd yr eglwys ar ddiwedd y 15fed ganrif o dan nawdd Syr William Stanley. Yn ystod Rhyfel Cartref Lloegr cafodd ei ddifrodi pan oedd lluoedd y Senedd yn byw yno; mae marciau bwledi i'w gweld o hyd yn y waliau a'r pileri ym mhen gorllewinol yr eglwys. Yn 1732 adnewyddwyd yr eglwys; roedd y gwaith hwn yn cynnwys dinistrio llofft y grog a'r sgriniau, a chafwyd gwaith adfer sylweddol eto ym 1871–73. Mae'n eglwys sy'n werth ymweld â hi, a chefais innau gyfle i fynd yno am y tro cyntaf yn ystod yr wythnosau diwethaf – diolch i gyngerdd codi arian at Eisteddfod Wrecsam!



**Eglwys yr Holl Saint, Gresffordd**
Eglwys gofrestredig Gradd 1 o'r 13eg ganrif, yw Eglwys yr Holl Saint, Gresffordd. Mae cyfeiriad at yr eglwys mewn dogfen hynafol, sydd bellach ar goll, lle dywedir bod Trahaearn ap Ithel ap Eunydd a'i bum brawd wedi sefydlu'r eglwys ac wedi rhoi'r tir ar ei chyfer. Ychwanegwyd ystlys, estynnwyd y gangell ac ychwanegwyd claddgell yn y 14eg ganrif.

Dymchwelwyd yr hen eglwys yn y 15fed ganrif, ac adeiladwyd yr eglwys bresennol. Cadwyd rhannau'n unig o'r waliau gorllewinol a dwyreiniol. Adeiladwyd yr eglwys o dywodfaen o ardal Cefn Mawr. Tu mewn i'r eglwys mae corffddelw, o Fadog ap Llywelyn ap Gruffudd, mwy na thebyg. Hefyd, mae yna gerflun hynafol o Atropos ar hen allor Rhufeinig, cerflun o Syr David Hanmer (tad yng nghyfraith i Owain Glyndŵr) a llechen er cof am Goronwy ap Iorwerth. Yn ymyl y drws gogleddol mae cofeb i'r 266 o fechgyn lleol a laddwyd yn nhrychineb Gresffordd.

Yn ôl hen rigwm, mae clychau'r eglwys yn un o Saith Rhyfeddod Cymru.

## *Eglwysi a chapeli hanesyddol Wrecsam* *(parhad)*

**Eglwys Sant Paul, Is-y-coed**
Dyma'r eglwys agosaf at faes yr Eisteddfod ac mae wedi ei lleoli mewn llecyn gwledig. Mae'r adeilad wedi ei gofrestru, Gradd 2, ac mae'n debyg fod y cofnod cyntaf o eglwys ar y safle yn 1715. Ailadeiladwyd hi yn 1742, a chynlluniwyd yr adeilad presennol gan John Butler a'i adeiladu yn 1829 ar gost o £700. Mae'n enghraifft ardderchog o eglwys o ddechrau'r 19eg ganrif. Roedd yn braf cyfarfod â Sian o'r eglwys yn ein sesiwn i drefnu Pabell yr Eglwysi, a diolch iddi am gynnig cymorth ymarferol gyda threfniadau'r babell. Ceir newyddion am yr eglwys ar Facebook.

**Eglwys Sant Chad, Hanmer**
Mae Eglwys Sant Chad ym mhentref Hanmer ar y ffordd i'r Eglwys-wen (Whitchurch) yn hardd iawn ac mewn safle arbennig ger y Mere, ac wedi ei chofrestru, Gradd 2. Roedd yr eglwys flaenorol ar y safle yn dyddio o ganol y 12fed ganrif ac yno, tua 1383, priodwyd Margaret Hanmer ac Owain Glyndŵr. Difrodwyd y lle yn 1463 yn ystod Rhyfel y Rhosynnau yn y cyfnod pan oedd Dafydd ab Edmwnd yn byw ac yn ysgrifennu yma. Cafwyd to newydd i'r eglwys yn 1892 ar ôl tân yno. Bu'r bardd R. S. Thomas yn gurad yma yn ystod blynyddoedd cyntaf yr Ail Ryfel Byd.



**Capeli anghydffurfiol**
Mae capeli nodedig o hardd a'r rhai mwyaf o ran maint o fewn yr ardal ym mhentref Rhosllannerchrugog, sef Capel Jerusalem (Capel Mawr EBC), Capel Bethlehem (A) a Chapel Penuel (B).

**Capel Penuel (Bedyddwyr), Rhosllannerchrugog**
Capel deulawr a adeiladwyd yn 1856–9, â blaen y capel wedi ei ychwanegu o frics dan gynllun Owen Morris Roberts, Porthmadog. Dechreuodd Rhys Bevan Jones ei ymgyrch efengylu ym Mhenuel yn ystod Diwygiad 1904/05. Un o weinidogion yr eglwys oedd Lewis Valentine.

**Morgan Llwyd**
Ni ellir sôn am etifeddiaeth Gristnogol ardal Wrecsam heb gydnabod cyfraniad Morgan Llwyd. Bardd, llenor rhyddiaith a chyfrinydd oedd Morgan Llwyd (1619–3 Mehefin 1659), ac fe gafodd ei eni yng Nghynfal-fawr (hen blasty gwledig, filltir i'r de o Ffestiniog) ym mhlwyf Maentwrog yn yr hen sir Feirionnydd (de Gwynedd heddiw), i'r un teulu â'r bardd Huw Llwyd. Fe'i gelwir weithiau yn Morgan Llwyd o Wynedd. Roedd yn awdur toreithiog yn y Gymraeg ac ysgrifennodd ambell destun Saesneg yn ogystal. Roedd yn Biwritan argyhoeddedig a digyfaddawd, ond ni pherthynai iddo'r culni meddwl a gysylltir â'r mudiad crefyddol hwnnw. Mae'n debyg mai yn Wrecsam y cafodd ei addysg ffurfiol, pan oedd y Piwritan Walter Cradock yn gurad yno, a bu Cradock yn athro crefydd i Forgan Llwyd am weddill ei oes.

Crwydrodd Morgan Llwyd gryn dipyn wedyn, a chawn ei fod yn Llanfair Waterdine yn Swydd Amwythig ac yna yn Llanfaches yn y de. Pan dorrodd Rhyfel Cartref Lloegr allan yn 1642 ffodd rhag erledigaeth i Fryste ac wedyn i Hampshire. Daeth yn gaplan gyda byddin y Senedd yn y Rhyfel Cartref, ac mae'n debyg iddo grwydro llawer gyda'r milwyr. Erbyn 1647 roedd yn ôl yn Wrecsam, crud Anghydffurfiaeth gogledd Cymru, ac fe'i penodwyd yn weinidog ar yr eglwys anghydffurfiol yno.

Roedd yn un o'r comisiynwyr a benodwyd gan Oliver Cromwell i ymchwilio i gyflwr crefydd yng Nghymru dan Ddeddf Taenu'r Efengyl yng Nghymru (1650), gyda Walter Cradock, Vavasor Powell, Oliver Thomas, Jenkin Jones, John Miles ac eraill. Ond pan gyhoeddodd Cromwell ei hun yn Arglwydd Amddiffynnwr a dechrau ymddwyn fel unben, roedd Morgan Llwyd ymhlith y bobl ddewr a'i gwrthwynebodd.



Enwyd Ysgol Morgan Llwyd, ysgol gyfrwng Cymraeg Wrecsam a'r cylch, ar ei ôl, ac mae hynny'n cadw ei enw'n fyw yn yr ardal a thrwy Gymru.

Gweddïwn y bydd bendith ar ymweliad yr Eisteddfod â'r fro, a chroeso i chi i gyd i ardal Wrecsam!

*Marian Lloyd Jones*

## Cynorthwyydd Gweinyddol (Dwyieithog – Cymraeg/Saesneg)

Lleoliad: Hybrid (Gweithio o adref ac yn y swyddfa yng Nghaerdydd)

Math o Gytundeb: Rhan-amser (hyd at 15 awr yr wythnos)

Dyddiad Cychwyn: Hydref 1, 2025

Mae'r Cyngor ar Alcohol a Chyffuriau Eraill (CARE – yr Elusen ar gyfer Dibyniaeth, Adferiad a Galluogi) yn chwilio am Gynorthwyydd Gweinyddol ymroddedig i gynorthwyo ein Prif Weithredwr a sicrhau gweithrediad llyfn i'n helusen.

**Prif gyfrifoldebau:**
- Darparu cymorth gweinyddol, gan gynnwys rheoli dyddiaduron a negeseuon e-bost.
- Cadw cofnodion yn unol â pholisïau diogelu data.
- Cynorthwyo gyda dogfennaeth cyfarfodydd a threfniadau digwyddiadau.
- Cyfathrebu'n effeithiol yn Gymraeg ac yn Saesneg.

**Gofynion:**
- Rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Sgiliau trefnu a chyfathrebu cryf.
- Profiad mewn swydd weinyddol yn ddymunol.
- Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus dderbyn datgeliad DBS manwl a dilyn prosesau gwirio eraill.
- Mae gofyniad galwedigaethol iaith Gymraeg yn berthnasol ar gyfer y swydd hon.

**Sut i wneud cais:**

Gofynnwch am ffurflen gais trwy anfon e-bost at wynford@recover-council.org neu ffoniwch Wynford ar 029 2063 0993 neu 07796464045. **Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 1af Medi 2025 am 4yp.**

Ymunwch â ni i gael effaith gadarnhaol ar y gymuned!

# Credo Nicea – Sesiwn Un: Cread Duw (rhan 2)

**Diwygiwyd geiriad y Credo a gytunwyd yn Nicea (325 OC) yng Nghyngor Caergystennin yn 381 OC. Yn gyffredinol, y fersiwn hwn, Credo Nicea-Caergystennin, sydd wedi ei etifeddu gennym ar draws y canrifoedd, yw'r un a ddefnyddir gan y traddodiadau Cristnogol ar draws y byd ac sy'n sail i'r myfyrdodau sy'n dilyn.**

Mae'r siwrnai i Sitio Gaang yn un anodd, gan ei bod yn golygu taith lafurus a hir drwy dirwedd arw. Ac eto, i'r sawl sy'n gwneud y siwrnai, mae'r wobr yn anfesuradwy. Ar 15 Mawrth 2024 cefais y fraint o ymuno ag esgob yr esgobaeth, y Gwir Barchedig Ronelio Fabriquer, a'i swyddogion rhaglen wrth iddynt gysegru capel newydd i'r gymuned Mangyaidd. Roedd llawenydd a chyffro'r gymuned yn amlwg, ac yn dystiolaeth i'w ffydd ddofn a'i gwytnwch.

Mae cysylltiad pobl Mangya â'r tir yn mynd y tu hwnt i gynhaliaeth yn unig; mae hefyd yn ddwfn, yn ysbrydol ac yn ddiwylliannol. Clymwyd eu harferion, eu defodau a'u credoau yn dynn wrth yr amgylchedd naturiol o'u hamgylch. Gwelant eu hunain nid fel perchnogion y tir yn unig, ond fel gofalwyr yr ymddiriedwyd iddynt y cyfrifoldeb o'i warchod a'i gadw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r cyswllt dwfn hwn â'r tir yn llywio pob agwedd ar eu bywyd, o batrwm eu bywyd bob dydd i'w hymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn.

Fodd bynnag, mae eu bywyd heddychlon bellach dan fygythiad o sawl tu, gan gynnwys militareiddio, mwyngloddio a meddiant graddol o'u tiroedd. Yn drychinebus iawn, collodd aelodau o'r gymuned eu bywydau'n amddiffyn eu hawliau a thiroedd eu hynafiaid. Maent yn dioddef o ganlyniad i'r ffaith fod eu hadnoddau naturiol yn cael eu hecsbloetio, gweithredu twyllodrus yn digwydd wrth iddynt fasnachu eu nwyddau, gwahaniaethu, a threisio'u hawliau dynol sylfaenol.

Er gwaetha'r heriau hyn, saif y Mangyaniaid yn gadarn yn eu hymrwymiad i amddiffyn eu ffordd o fyw a'r amgylchedd sy'n eu cynnal. Maent yn stiwardiaid y tir a gwarcheidwaid ffordd o fyw sydd ynghlwm ym myd natur. Mae eu stori yn atgof dirdynnol o'n cyfrifoldeb ni oll i ofalu am yr amgylchfyd ac amddiffyn hawliau cymunedau cynhenid.

Mae'r Eglwys hefyd yn chwarae rhan greiddiol yn cefnogi'r Mangyaniaid yn eu brwydr dros gyfiawnder a chadwraeth ecolegol. 'Gweinidogaeth presenoldeb' yw ei hymateb, ymateb sy'n deillio o'i ffydd yn Nuw fel Creawdwr y cread cyfan. Ceir enghraifft o hyn yn Esgobaeth Romblon a Mindoro. Mae'n ymgorffori dysgeidiaeth Iesu ar wasanaeth anhunanol a thosturi. Drwy sefyll ochr yn ochr â'r gymuned gynhenid, mae'r Eglwys yn cynnig cryfder, gobaith a dewrder i barhau'r ymdrech dros hawliau ac urddas.

Nid taith go iawn yn unig yw'r daith i Sitio Gaang. Mae'n un ysbrydol a moesol hefyd. Siwrnai ydyw sy'n galw arnom i ystyried ein rôl fel stiwardiaid ar gread Duw ac i weithredu mewn tosturi a chyfiawnder dros yr holl greadigaeth. Wrth i ni geisio byw dysgeidiaeth Crist, boed i ni gael ein hysbrydoli gan ffydd a dygnwch y Mangyaniaid a chydio yn eu dwylo yn eu hymchwil am gyfiawnder, heddwch a chynaliadwyedd yr amgylchedd.

**Cwestiynau i fyfyrio arnynt**

Beth allen ni fod yn ei ddysgu gan y Mangyaniaid a'u cysylltiad â'r tir? Beth mae'n ei olygu i chi fod gennych weinidogaeth o bresenoldeb mewn perthynas â'r amgylchfyd o'ch cwmpas chi, ac yn y mannau lle rydych yn byw ac yn gweithio? Sut mae ein hagwedd at warchod y cread yn newid pan gydnabyddwn Dduw fel Creawdwr?

Sut y gall yr eglwysi Cristnogol uno â'i gilydd i ymateb i'r argyfwng amgylcheddol / newid hinsawdd mae'r byd yn ei wynebu?

Ystyriwch eich eglwys a'ch cymuned leol – beth ydych yn ei wneud fel stiwardiaid ar gread Duw a beth mwy allech chi ei wneud? Beth am gadw nodyn o atebion y grŵp a'u rhannu ar-lein ar @USPGGlobal neu gan ddefnyddio #WeBelieve2025

**Gweddïau**

Dduw Dad, rydym ar fai yn dinistrio dy gread, rydym wedi methu gweithredu i amddiffyn a gwarchod y byd a wnaethost. Maddau i ni am ddinistrio bywyd ein cymdogion, fforestydd, moroedd, mynyddoedd, a'r ddaear gyfan. Bydd yn oleuni i ni ar lwybrau tywyll temtasiwn, hunanoldeb a blys. Ysbrydola ni â'th eiriau a'th weithredoedd, fel y gallwn lewyrchu dy oleuni dros eraill. Atgoffa ni i fod yn stiwardiaid da o'th gread cyfan. Amen.

Arglwydd, rydym yn euog o esgeuluso hawliau pobl gynhenid a ffordd o fyw sydd wedi ei bwriadu i amddiffyn yr amgylchedd a thiroedd eu hynafiaid. Arwain ni, O Dduw, i gynnig iddynt gyfle cyfartal i ennill bywoliaeth gynaliadwy. Ysbrydola ni â'th air i ddangos tosturi a solidariaeth. Amen.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 3 Awst, am 7:30yb a 12:00yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Aled Lewis Evans, Wrecsam

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 3 Awst, am 2:00yp**
Oedfa'r Eisteddfod dan arweiniad Jen Eynon a chriw Ysgol Morgan Llwyd




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

# Yasmine

Ganed hi yn Beit Sahour heb fod ymhell o Fethlehem. Daeth yr anthropolegydd a diwinydd ifanc hon i Nant Gwrtheyrn i gyfarfodydd blynyddol Undeb yr Annibynwyr. Pnawn dydd Iau, clywsom ganddi fod y sefyllfa go iawn ganwaith gwaeth na gwaethaf y gwaethaf a glywsom am Gaza. Mewn mymryn dros hanner awr, fe drodd Yasmine y sment.

Tueddwn nid i gyflawni'r drwg ond ei ganiatáu – caniatawn y drwg yn ein tueddiad i anghofio amdano a thrwyddo.

Er nad hawdd deall trafferthion economaidd, gwleidyddol, cymdeithasol, moesol ein diwylliant a'n byd, mae'n hawdd anghofio amdanynt – eu gosod o'r neilltu – wrth geisio cadw gafael ar fywyd yng nghanol prysurdeb ein byw.

Gwelir y tueddiad i anghofio ar ei waethaf a'i fwyaf peryglus mewn sefydliadau. Mae'n hawdd iawn iawn i sefydliad anghofio ei briod waith, anghofio'r union bobl y crëwyd y sefydliad i'w gwasanaethu, ei diogelu a'i hamddiffyn. Fel pob sefydliad arall, gall yr Eglwys Fawr, a'r eglwys leol anghofio i beth y crëwyd hi.

Gwelir ym mhob sefydliad y caledi anorfod hwn. O baratoi sment, rhaid ei droi'n gyson drwyadl, neu bydd yn ymsolido, a chaledu'n drwm cyn ei ddefnyddio. Felly y mae gyda phob sefydliad; heb ei droi, fe ymsolida. Fe ddaw cynnal a chadw'r sefydliad ei hun yn bwysicach na chyflawni ei briod waith.

Beth fuasai'n digwydd tybed, pe bai ein trafodaethau, pwyllgorau a strategaethau'n dechrau gyda phobl nid ystadegau?

Beth fuasai'n digwydd tybed, pe bai'r trafodaethau gwleidyddol am y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol yn digwydd, nid mewn stafell gyfarfod ddestlus, ond yng nghanol prysurdeb y ward cyffredin?

Beth fuasai'n digwydd pe gynhelir y trafodaethau am yr hil-laddiad ym Mhalestina, nid yn Llundain a Chaerdydd ond yn Gaza?

Beth fuasai'n digwydd pe gynhelir y trafodaethau am ganlyniadau a goblygiadau rhyfel a rhyfela yn Wcráin a Myanmar; yn Swdan, Mecsico, Yemen, a'r Sahel?

Beth fuasai'n digwydd pe gynhelir y trafodaethau am newid hinsawdd ym Mangladesh, neu rhywle tebyg sydd, heddiw, go iawn, yn dioddef o'i herwydd?

Beth fuasai'n digwydd pe bai trafodaethau'r diaconiaid/blaenoriaid/cyfarfodydd blynyddol/cymanfa gyffredinol ayyb yn cael eu cynnal, yn llythrennol, o dan lygad ein Harglwydd Iesu?

Beth fuasai'n digwydd i fywyd a chenhadaeth yr Eglwys Fawr pe bawn yn cael gwybod rhag blaen bod Iesu, ymhen yn flwyddyn yn dychwelyd i weld sut 'rydym yn dod ymlaen â phethau?



Beth fuasai'n digwydd? Buasai'r sment yn cael ei droi!

Mae pob sefydliad yn atebol i bobl. Mae Senedd Cymru a San Steffan yn atebol i ni, y bobl. Mae'r Eglwys yn atebol i bobl, ydy, ond mae hefyd yn atebol i Dduw! Buasai ein sefydliadau bob un yn iachach, be bai digon ohonom yn hidio digon i droi'r sment! Dyna oedd neges, apêl a her Yasmine o Beit Sahour.

**Owain Llŷr Evans**

# Yn y cysgod ar y trenau: gobaith ynghanol anhrefn

Ar nos Sadwrn yn ddiweddar, ar ôl pryd o fwyd yng Nghaerdydd, fe deithiais gyda'm gwraig ar y trên am 22:27 adref i Gastell-nedd. Roeddem wedi disgwyl taith dawel – ond yn lle hynny, fe ddaethom wyneb yn wyneb ag anhrefn, trais, ac ofn. Roedd y cerbyd yn orlawn, heb ddigon o staff, ac yn llawn tensiwn. Cafwyd ymddygiad ymosodol, iaith sarhaus, a bygythiadau ar y trên. Galwon ni'r heddlu, ond ni ddaeth neb. Roeddem yn teimlo'n hollol unig. Yn y munudau hynny, fe'm hatgoffwyd o'r gwirionedd dwfn: mae Cymru angen Iesu.



Roedd yr hyn a welsom ar y trên yn dorcalonnus. Roedd dynion a menywod yn defnyddio iaith ffiaidd, yn gweiddi ac yn rhegi heb unrhyw gywilydd. Nid oedd hwn yn ymddygiad ysgafn wedi yfed ychydig, roeddent yn amlwg wedi meddwi'n llwyr, i'r graddau nad oeddent yn ymwybodol o'u gweithredoedd nac o'r effaith ar y teithwyr o'u cwmpas. Roedd eu hymddygiad yn ymosodol ac anweddus, ac yn creu awyrgylch o ofn ac ansicrwydd. Roedd teithwyr diniwed, gan gynnwys fy ngwraig a minnau, yn gorfod gwrando ar iaith anweddus a sarhaus, heb unrhyw ymyrraeth gan staff na phresenoldeb heddlu.

### Cymru ar goll

Mae'r profiad hwn yn adlewyrchu mwy na methiant trafnidiaeth gyhoeddus – mae'n symptom o gymdeithas sydd wedi colli ei ffordd. Pan fo pobl yn teimlo'n ddiymgeledd, pan fo trais yn cael ei oddef, a phan fo gwasanaethau'n methu â diogelu'r rhai mwyaf bregus, mae'n amlwg bod rhywbeth dwfn o'i le.

Mae'r Beibl yn dweud: 'Mae'r ARGLWYDD yn hafan ddiogel i'r rhai sy'n cael eu gorthrymu – yn hafan pan maen nhw mewn trafferthion.' (Salm 9:9) Ond i lawer yng Nghymru heddiw, nid yw'r Arglwydd yn hysbys. Mae'r eglwysi'n wag, mae'r efengyl yn cael ei anwybyddu, ac mae calon y genedl yn nychu.

### Crist: goleuni yn y tywyllwch

Yn ystod y daith honno, pan oeddem yn teimlo mewn perygl, fe wnes i droi at dawelwch. Nid oedd neb arall yn gallu ein hamddiffyn, ond roedd Duw yno. Roedd ei bresenoldeb yn gysur, ei heddwch yn gryfder. Yn Iesu Grist, mae gennym ni obaith nad yw'n darfod – gobaith sy'n


*parhad ar y dudalen nesaf*

## Barn Annibynnol

# Ydy diwinyddiaeth yn werth ei dysgu ym mhrifysgolion Cymru?

Mae'r cyfleoedd i astudio diwinyddiaeth ym mhrifysgolion Cymru yn prinhau. Mae cyhoeddiad diweddar Prifysgol Caerdydd ei bod hi'n bwriadu cael gwared ar ei hadran ddiwinyddiaeth yn golygu y bydd y pwnc yn symud yn nes at gyrion yr academi Gymreig. Daw penderfyniad Caerdydd yn fuan ar ôl i Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant gau ei champws dyniaethau gan symud ei hadran diwinyddiaeth i Gaerfyrddin mewn ymgais i arbed arian. Er bod Prifysgol Bangor yn parhau i gynnig diwinyddiaeth, dim ond ar y cyd ag athroniaeth a moeseg y gall israddedigion bellach astudio'r pwnc. Gan fod adrannau diwinyddol ein prifysgolion yn edwino, disgyn y





ESPONIAD

AR Y

TESTAMENT NEWYDD.

GAN

GEORGE LEWIS

GWEINIDOG YR EFENGYL Y'NGWRECSAM.

LLYFR IV.

Gwrecsam: Argraffwyd gan Ioan Painter.

1815.

dasg o ddarparu addysg ddiwinyddol Gymreig ar ein colegau diwinyddol – Coleg Bedyddwyr Caerdydd, Ysgol Ddiwinyddiaeth Union, ac Athrofa Padarn Sant – ynghyd â'n rhaglenni hyfforddi enwadol.

### O'r canol i'r cyrion

Nid yw symudiad diwinyddiaeth o'r canol i gyrion yr academi Gymreig yn syndod. Pan oedd diwinyddiaeth yn rhan bwysig o gwricwlwm Bangor, Llanbed, a Chaerdydd, roedd gan Gristnogaeth rôl bwysig ym mywyd Cymru. Fodd bynnag, yng Nghymru'r unfed ganrif ar hugain, lle mae 46.5% o bobl yn dweud eu bod yn 'ddigrefydd', mae diwinyddiaeth bellach yn cael ei thrin fel pwnc amherthnasol. Er bod rhai yn parhau i'w goddef fel hobi, caiff diwinyddiaeth ei thrin ag amheuaeth fel disgyblaeth academaidd. Gan fod modd ateb cwestiynau daearyddiaeth, hanes, gwyddoniaeth a gwleidyddiaeth heb gyfeirio ati, mae nifer o Gymry'n gofyn y cwestiwn: Pam fod angen dysgu diwinyddiaeth yn ein prifysgolion heddiw?

### Pam fod diwinyddiaeth yn bwysig?

Trwy ras Duw, mae'r Cristion yn gwybod pam. Mae angen diwinyddiaeth arnom heddiw gan ein bod yn byw mewn byd sy'n llawn ystyr diwinyddol. Rydym yn byw ym myd Duw ac mae realiti ein bodolaeth yn dibynnu arno. Rydym yn greaduriaid a wnaed ar ei ddelw gydag urddas a gwerth (Gen. 1:27). Rydym wedi cwympo ac rydym yn ddiffygiol. Ond trwy berson ei Fab, Iesu Grist, daeth Duw i'r byd i'n hachub trwy ei farwolaeth a'i atgyfodiad. Trwy ffydd yn Iesu, gallwn fwynhau bywyd yn ei holl gyflawnder – heddiw ac am byth (Ioan 10:10).

Nid materion dibwys yw'r rhain; dyma atebion i gwestiynau mwyaf bywyd. Yn wir, cwestiynau diwinyddol yw'r rhai pwysicaf: 'Pwy ydw i? Beth yw ystyr bywyd? A oes Duw? Os oes, sut gallaf ei adnabod?' Yn ddi-os, maent yn gwestiynau y dylid eu trafod ym mhrifysgolion Cymru, ochr yn ochr â phynciau fel sut mae mitocondria yn cynhyrchu ynni cemegol a goblygiadau gwleidyddol Deddf Uno 1536.

Ydy, mae'r Cristion yn gwybod bod diwinyddiaeth yn bwysig, ond sut allwn ni argyhoeddi ein byd, gan gynnwys ein prifysgolion, o'i phwysigrwydd? Heb os, dylwn geisio eu hargyhoeddi. Er hynny, anodd fyddai newid diwylliant academaidd dros nos. Pam? Oherwydd nid prifysgolion na sefydliadau yw man cychwyn y Beibl ar gyfer newid, ond pobl. Mae newyddion da'r efengyl yn newid pobl yn gyntaf cyn newid diwylliant a'r academi. Wrth i ni rannu am Iesu gyda'n cyd-fyfyrwyr a'n cydweithwyr, gweddïwn y bydd llawer yn dod i'w adnabod, gan ddod yn rhan o'i eglwys. Wrth i bobl ddod i'w drysori, bydd addysg ddiwinyddol hefyd yn cael ei gwerthfawrogi o'r newydd fel ffordd o ddysgu mwy amdano. Y newid personol hwn yw'r hyn a all ddod â diwinyddiaeth o'r cyrion i ganol y drafodaeth gyhoeddus. Wedi'r cyfan, llawforwyn yr eglwys yw addysg ddiwinyddol ym mhob oes ac mae ei llwyddiant yng Nghymru yn dibynnu'n gyfan gwbl ar fywiogrwydd yr eglwys leol.

**Gwilym Tudur, Caergrawnt**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

## Yn y cysgod ar y trenau: gobaith ynghanol anhrefn – parhad

goleuo hyd yn oed y cerbydau tywyllaf. Mae Cymru angen Iesu nid fel cysur crefyddol, ond fel un sy'n achub. Rydym angen adnewyddiad ysbrydol – nid yn unig mewn eglwysi, ond mewn cymunedau, mewn gwasanaethau cyhoeddus, ac yn ein bywydau beunyddiol.

### Galwad i'r eglwys

Mae'r digwyddiad hwn wedi fy ysgogi i weddïo'n amlach, pregethu'n gyson, a siarad llawer mwy am y gwirionedd, nad yw polisi na seilwaith yn ddigon ar eu pen eu hunain i newid pethau. Mae angen trawsnewid calon. Mae angen Iesu.

Gadewch i ni, fel eglwysi, beidio â bod yn dawel. Gadewch i ni sefyll dros gyfiawnder, galw am ddiogelwch, ond yn fwy na dim, gadewch i ni gyhoeddi'r Crist. Oherwydd dim ond trwy Iesu y gall Cymru gael ei hadfer.

> Mae'r golau'n dal i ddisgleirio yn y tywyllwch, a'r tywyllwch wedi methu ei ddiffodd.
>
> (Ioan 1:5)

**Rhys Locke**

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Nofio ac addoli



Ers symud i Ben-y-bont, bron 35 mlynedd bellach, rwy'n mynd i nofio'n rheolaidd yng nghanolfan hamdden y dref. Y nod yw 3 gwaith yr wythnos, rhwng 8.30 ac 9.00 y bore, yn dibynnu ar amgylchiadau, iechyd ac amser. Rwy'n ffodus bod y ganolfan ond 10 munud o daith gerdded o'r tŷ.

### Llwyau

I chi gael deall wna' i byth ennill gwobr am fy nhechneg. 'Spoons not forks, boy!' yw un o ddywediadau cofiadwy hen athro ysgol (cyfeiriad at fy nefnydd o'm dwylo wrth nofio, nid fy ffordd o fwyta, gyda llaw). Wna i ddim chwaith dorri record cyflymder. Ond rwy'n gallu mynd yn ddidrafferth o un ochr o'r pwll i'r llall a dal ati am hanner awr heb flino. Mae'n ymarfer sy'n ymlacio corff a meddwl, heb sôn am y buddion iechyd eraill sy'n gysylltiedig.

Ond yn ddiweddar fe ddigwyddodd rhywbeth rhyfedd iawn. Yn sydyn ac yn ddirybudd dyma gael fy hun yn llythrennol yn methu nofio. Breichiau a choesau'n mynd i bob cyfeiriad a minnau'n ffwndro yn y dŵr. Roedd yn union fel taswn i heb nofio erioed o'r blaen a dim syniad yn y byd sut i wneud. Er nad oedd perygl o foddi, roedd yn brofiad annifyr ac yn ddigon naturiol bu'n chwarae ar fy meddwl. Mae wedi digwydd fwy nag unwaith ers hynny, ond erbyn hyn rwy'n medru, i raddau, delio ag e. Roeddwn i wastad wedi credu bod nofio yn debyg i reidio beic. Wedi dysgu, y byddech chi byth yn anghofio. Rhywbeth sy'n dod yn awtomatig, heb orfod meddwl amdano bron. Tybed?



### Addoli

Bu'r profiad yn fodd i wneud i mi feddwl am addoli. Gawsoch chi eich hunain ar goll, fel petai, ynghanol oedfa? Y geiriau'n golygu fawr ddim a'r cyfan yn ddim byd mwy na sŵn diystyr? Er ei wneud gannoedd o weithiau o'r blaen, yn sydyn, yn cael eich hun yn ffwndro, yn ddigyfeiriad a heb wybod beth i'w wneud na dweud. Os felly, rydych chi mewn cwmni da. Mae'n debyg bod y Fam Teresa yn ei chael yn anodd iawn ar adegau i weddïo. Er ei bod hi'n sicr o gariad Duw, byddai teimlad o wacter ac oerni'n dod drosti weithiau pan ar ei gliniau. Rhywbeth meddai oedd yn ei chlwyfo i'r byw. A beth am y Salmydd? Onid yw'n gyson yn teimlo fod Duw ymhell, neu wedi troi cefn, neu ddim yn gwrando, neu'n ddi-hid o dynged ei bobl neu'n gwrthod gweithredu i wneud pethe'n well?

### Ymlonyddu

Rwy wedi dysgu dau beth wrth geisio delio â'm trafferthion i yn nofio.

Yn gyntaf rhaid stopio weithiau. Aros yn llonydd am ychydig funudau, er mwyn ailddarganfod y gallu i nofio fel petai. Mae'r Salmydd yn dweud rhywbeth tebyg am addoliad: 'Ymlonyddwch ... stopiwch.' Neu yn ôl un cyfieithiad Saesneg cyfoes, 'Calm down!' Yn ddiddorol ychydig ynghynt yn y Salm cyfeirir at drafferthion y byd. Terfysg a rhyfeloedd. Teyrnasoedd yn gwegian. Y ddaear yn 'toddi' ac yn profi 'difrod.' Profiadau y gwyddom ni amdanynt, profiadau sy'n gallu gwneud addoli yn anodd. Felly mae chwilio am gyfle i ddeall o'r newydd pwy yw Duw a sut mae – yng nghyd-destun yr hyn sy'n digwydd o'n cwmpas – ei addoli'n ystyrlon yn bwysig iawn. Yng ngeiriau'r Salmydd, 'Ymlonyddwch, a deallwch mai myfi sydd Dduw.'

### Amrywio

Yr ail wers yw bod yn rhaid weithiau newid y dull o nofio. Nofio dros ysgwydd byddaf i fel arfer, ond rwy wedi dysgu, os am barhau, bod yn rhaid amrywio a throi at ddulliau eraill.

Gallwn fod yn bobl ddeddfol iawn wrth addoli. Yr un geiriau a thermau, yr un drefn ag elfennau, yr un emynau a darlleniadau Beiblaidd, yr un lle ac amser. Oes syndod mewn gwirionedd bod yr orddibyniaeth ar y cyfarwydd yn gallu gwneud i'n haddoliad deimlo'n ymarfer diystyr a di-werth weithiau? Onid oes gwir yn yr hen ddywediad: Cyffredin pob cyfarwydd?

Un o feiau nofio dros ysgwydd yw bod yr wyneb yn gyson i lawr ac yn edrych i mewn i'r dŵr. Gwahanol iawn yw'r dull broga. Mae'r pen i fyny a'r llygaid yn rhydd i weld yr hyn sydd o'ch cwmpas, y pwll cyfan, y nenfwd uwch ben, y ffenestri yn dangos y byd tu fas ac wrth gwrs, pobl eraill. Oni ddylai ein haddoliad ein galluogi i wneud yr un peth?

Yng ngeiriau Eseia, 'helaetha faint dy babell, estyn allan lenni dy drigfannau, gollwng y rhaffau allan i'r pen a sicrha'r hoelion.'

**Robin Wyn Samuel**

## Eglwysi Annibynnol Bethesda, Tymbl Capel Seion, Drefach a Nazareth, Pontiets

Cynhelir cyfarfod sefydlu

**Parchg Guto Llywelyn**

**yn weinidog i Iesu Grist**
ar yr eglwysi uchod

ar ddydd Sadwrn, 13 Medi, 2025
am 1.30yp

**yng nghapel Capel Seion (SA14 7BN)**

Estynnir croeso cynnes i bawb
Darperir lluniaeth

Ar ran yr eglwysi:

Elen Davies, Mwynfan, Heol Meri, Drefach. (01269) 845 677

Ann Thomas, Y Berllan, Drefach (01269) 841 362

Delyth Bowen, 7 Heol Nazareth, Pontiets. (01269) 860 430

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*